Cyngor Osteopathig Cyffredinol

# Datganiad ar Bolisi Gorfodi'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol:

## Gwarchod y teitl osteopathig

**Yn weithredol o fis Mai 2022**

## Cynnwys


Cyflwyniad .......... 3
Diben teitl gwarchodedig .......... **Error! Bookmark not defined.**
Dull y Cyngor .......... 4
Y gweithdrefnau .......... 4
Erlyniadau .......... 5
Tystiolaeth ddigonol .......... 5
Disgwyliad realistig .......... 6
Budd y cyhoedd .......... 6
Costau erlyn .......... 6
Gweithio gydag eraill .......... 7
Cyhoeddusrwydd .......... 7

- Achos Un .......... 8
- Achos Dau .......... 8
- Achos Tri .......... 8

Hanes y fersiwn .......... 9

## Cyflwyniad

1. Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr gofal iechyd statudol ar gyfer osteopathiaid. Mae Deddf Osteopathiaid 1993 (Deddf 1993) yn ei gwneud yn ofynnol i bob osteopath fod wedi'i gofrestru â'r Cyngor er mwyn ymarfer yn y DU. Nod cyffredinol y Cyngor yw diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ceisio cyflawni'r amcanion a ganlyn:

   a) diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd

   b) hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi a

   hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn hwnnw.[1] a)

1. Fel rheoleiddiwr, mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ffyrdd i weithio gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn osteopathig i hybu diogelwch cleifion, gan gynnwys:

   · pennu, cynnal a datblygu safonau ymarfer ac ymddygiad osteopathig

   · ymchwilio i gyhuddiadau difrifol o gamymddwyn sy'n cwestiynu cymhwysedd osteopath i ymarfer.

   · sicrhau ansawdd addysg osteopathig a sicrhau bod osteopathiaid yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus.

2. Rydym wedi cyhoeddi'r polisi hwn i sicrhau bod ein hegwyddorion a'r ymagwedd a gymerwn i warchod y teitl osteopathig rhag defnydd anghyfreithlon yn glir a thryloyw.

3. Mae Adran 32(1) Deddf 1993 yn gwneud y canlynol yn drosedd

   'a person who (whether expressly or by implication) describes himself as ân osteopath, osteopathic practitioner, osteopathic physician, osteopathist, osteotherapist, or any other kind of osteopath, is guilty of an offence unless he is a registered osteopath'.

4. Mae troseddau o dan Adran 32 (1) Deddf 1993 yn fater o gyfraith droseddol gyffredinol ac nid oes gan y Cyngor reolaeth neilltuedig dros y broses o ymchwilio ac erlyn troseddau o'r fath. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r Cyngor yn unig. Nid yw'n berthnasol i benderfyniadau asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith neu awdurdodau erlyn nac yn effeithio arnynt. Diben teitl gwarchodedig

5. Mae nifer o deitlau proffesiynol wedi'u gwarchod gan y gyfraith i ddiogelu'r rheini sy'n ceisio gwasanaethau gan bobl broffesiynol. Mae'r teitl osteopathig yn rhoi sicrwydd i gleifion bod yr ymarferydd yn gymwys, yn addas i ymarfer ac yn meddu ar yswiriant indemniad proffesiynol digonol.

6. Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol 2 yn egluro fel a ganlyn:

---

[1] Wedi'i ddiwygio gan baragraff 3 o'r Atodlen i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015

[2] Awdurdod Safonau Proffesiynol, 'Protecting the public from unregistered practitioners – tackling misuse of titles' (Chwefror 2010)

Mae risg i ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd pan fydd pobl anghymwys yn honni eu bod yn weithwyr proffesiynol cofrestredig. Mae dyletswydd ar reoleiddwyr proffesiynol iechyd i sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd, ac mae mynd i'r afael ag achosion o gamddefnyddio'r teitl yn rhan bwysig o hyn.

Gall camddefnyddio teitlau gwarchodedig fygwth amddiffyniad y cyhoedd a diogelwch cleifion. Er enghraifft, gall camddefnyddio'r teitl arwain at niwed corfforol neu emosiynol i gleifion a'r cyhoedd, neu golledion ariannol. Gall camddefnyddio teitlau gwarchodedig danseilio hyder y cyhoedd mewn gweithwyr iechyd proffesiynol a'r systemau rheoleiddio a sefydlwyd i'w goruchwylio.

## Dull y Cyngor

7. O ran rheoleiddio'r camddefnydd o'r teitl 'osteopath', ein hamcan yw cyfyngu ar y niwed cyn gynted ac mor effeithiol â phosibl. I sicrhau bod ein hadnoddau wedi'u targedu, yn gymesur ac yn cael eu defnyddio mewn modd cyson, ein dull yw canolbwyntio ar gamddefnydd o'r teitl:
   - sy'n cyflwyno risg i ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd
   - lle y bo'n bosibl, sy'n atal troseddwyr ac yn annog cydymffurfiaeth barhaus â'r gyfraith.

## Y gweithdrefnau

8. Mae'r gweithdrefnau i'w gweld yng Nghanllawiau Gweithdrefnau Gwarchod Teitl y Cyngor. I grynhoi, y rhain yw:
   - gellir gwneud cyhuddiadau neu adroddiadau o gamddefnyddio'r teitl i'r Cyngor ar lafar neu'n ysgrifenedig, a gellir gwneud hynny'n ddienw hefyd
   - bydd pob cyhuddiad ac adroddiad yn cael ei ystyried gan yr adran Reoleiddio, a fydd yn penderfynu a ddylid ymchwilio i'r cyhuddiad
   - bydd y Cyngor yn cynnal ei ymchwiliad ei hun, gan ddefnyddio asiantaethau ymholi i gasglu tystiolaeth lle bo hynny'n briodol
   - lle bo tystiolaeth sy'n awgrymu y bu defnydd anghyfreithlon o'r teitl, bydd llythyr ymatal yn cael ei anfon yn hysbysu'r unigolyn ynghylch y gyfraith mewn perthynas ag Adran 32(1) Deddf 1993, gan ofyn iddo roi'r gorau i ddefnyddio'r teitl a'i rybuddio y gellid ei erlyn am y drosedd
   - os bydd yr unigolyn yn parhau i ddefnyddio'r teitl, neu'n rhoi'r gorau i wneud hynny i ddechrau ond yn dechrau defnyddio'r teitl eto yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid ei erlyn neu argymell erlyniad[3]

[3] Yn yr Alban, ni all asiantaethau gorfodi erlyn ar eu rhan eu hunain ond, yn hytrach, rhaid iddynt atgyfeirio'r achosion i Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Cyllidol

- os yw'r unigolyn wedi'i leoli yn yr Alban, bydd y Cyngor yn ystyried hefyd a ddylid ceisio gwaharddiad sy'n atal yr unigolyn rhag ymgymryd â gweithgareddau sy'n golygu ei fod yn torri amodau Adran 32(1).

## Erlyniadau

9. Y Cofrestrydd neu unigolyn sydd â'r awdurdod dirprwyedig fydd yn gwneud y penderfyniad i erlyn.

10. Wrth benderfynu a ddylid erlyn, bydd y Cyngor
    - yn gweithredu er budd y cyhoedd ac nid at ddiben sicrhau euogfarn yn unig
    - yn deg, annibynnol a gwrthrychol
    - ac yn dilyn y canllawiau perthnasol a nodir naill ai yn y:
        - Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer Lloegr a Chymru
        - Cod Erlyniadau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth Procuradur Cyllidol yr Alban
        - Cod i Erlynwyr a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Erlyn Cyhoeddus Gogledd Iwerddon

11. Gellir gwneud y penderfyniad i erlyn pan fydd:
    - yr unigolyn wedi'i hysbysu ynghylch y gyfraith fel y mae'n berthnasol i Adran 32(1) Deddf 1993
    - yr unigolyn wedi cael cyfle i roi'r gorau i ddefnyddio'r teitl gwarchodedig
    - yr unigolyn wedi parhau i ddefnyddio'r teitl, neu wedi dechrau ei ddefnyddio eto, ar ôl cael ei hysbysu am Adran 32(1)
    - y drosedd wedi'i chyflawni o fewn y chwe mis diwethaf[4]
    - tystiolaeth ddigonol ar gyfer disgwyliad realistig o euogfarn
    - erlyn er budd y cyhoedd.

## Tystiolaeth ddigonol

12. Rhaid bod tystiolaeth ddigonol i roi disgwyliad realistig o euogfarn yn erbyn pob unigolyn ar gyfer pob cyhuddiad.

13. Wrth benderfynu a oes tystiolaeth ddigonol i erlyn, bydd y Cyngor yn ystyried a yw'r dystiolaeth yn:
    - dderbyniol
    - dibynadwy, a

[4] Mae Adran 127 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 yn nodi, ar gyfer pob trosedd ddiannod, rhaid gosod y wybodaeth gyda'r Llys Ynadon o fewn chwe mis i gyflawni'r drosedd.

- chredadwy

## Disgwyliad realistig

14. Rhaid i'r penderfyniad ynghylch a oes disgwyliad realistig o euogfarn fod yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r dystiolaeth, gan gynnwys effaith unrhyw amddiffyniad neu wybodaeth a gyflwynir gan yr unigolyn a gyhuddwyd.

15. Dylai'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad fod wedi'i fodloni bod rheithgor, mainc o ynadon neu farnwr gwrthrychol, diduedd a rhesymol, sy'n clywed yr achos ar eu pen eu hunain ac sydd wedi'u cyfeirio'n briodol ac sy'n gweithredu'n unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol o ddyfarnu'r unigolyn a gyhuddwyd o'r drosedd honedig yn euog nag o beidio â gwneud hynny.

## Budd y cyhoedd

16. Lle bo tystiolaeth ddigonol i roi disgwyliad realistig o euogfarn, rhaid ystyried budd y cyhoedd wrth erlyn hefyd.

17. Ein rôl a diben teitl gwarchodedig yw diogelu'r cyhoedd.

18. Felly, bydd erlyniad yn digwydd fel arfer oni bai bod ffactorau budd cyhoeddus sy'n tueddu yn erbyn erlyniad sy'n gorbwyso'r rheini sy'n tueddu i ffafrio erlyniad.

19. Wrth benderfynu a oes budd cyhoeddus i erlyn, bydd y Cyngor yn ystyried y rhestr a ganlyn o ffactorau, nad yw'n gyflawn:

    - a yw'r gweithgaredd troseddol yn barhaus, a yw wedi dod i ben, neu a yw'n debygol o barhau, cynyddu neu gael ei ailadrodd.
    - y cyfnod o amser y parhaodd y gweithgaredd troseddol
    - a yw'r drosedd wedi'i chyflawni'n fwriadol neu o ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth
    - pan gyflawnwyd y drosedd a oedd yr unigolyn a gyhuddir yn dioddef o salwch meddwl arwyddocaol, neu a yw'n dioddef o salwch o'r fath ar hyn o bryd
    - a niweidiwyd aelod o'r cyhoedd neu a wnaethant wynebu risg yn sgil y troseddu
    - a yw'r erlyniad yn debygol o gael effaith sylweddol ar gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn neu atal eraill rhag troseddu
    - a rybuddiwyd yr unigolyn a gyhuddir cyn i'r drosedd gael ei chyflawni
    - a yw erlyniad yn ymateb cymesur i'r ymddygiad a arweiniodd at y drosedd.

## Costau erlyn

20. Rydym yn cael ein hariannu gan ffioedd y rhai sy'n cofrestru, y mae gennym ddyletswydd i'w defnyddio mewn modd cyfrifol. Bydd y Cyngor yn ceisio adennill

ei gostau’n llawn pan fydd wedi erlyn troseddwr yn llwyddiannus o dan Adran 32(1).

## Gweithio gydag eraill

21. Bydd y Cyngor yn cysylltu ac yn cydweithredu ag asiantaethau ac awdurdodau erlyn eraill i sicrhau bod troseddwyr o dan Adran 23(1) yn cael eu herlyn, lle y bo’n briodol. Mae hyn yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaethau Erlyn y Goron, Swyddfa’r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Cyllidol, Gwasanaeth Erlyn Cyhoeddus Gogledd Iwerddon, rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill a Safonau Masnach.

## Cyhoeddusrwydd

22. Mae cyhoeddusrwydd yn sgil euogfarnau yn hysbysu aelodau’r cyhoedd ynghylch troseddwyr. Mae’n atal y rheini a allai fod yn camddefnyddio’r teitl ac mae’n rhoi dealltwriaeth ddefnyddiol i eraill hefyd a fyddai o bosibl yn defnyddio’r teitl yn anghyfreithlon fel arall. Am y rhesymau hyn, byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i achosion lle cafwyd erlyniad llwyddiannus o dan Adran 32(1).

23. Mae detholiad o achosion blaenorol lle llwyddodd y Cyngor i erlyn troseddwyr i’w gweld yn yr Atodiad i’r polisi hwn.

# Atodiad

## Achos Un

Nid oedd Mr A wedi'i gofrestru (ond roedd wedi cymhwyso'n flaenorol fel osteopath) ac roedd yn disgrifio ei hun fel osteopath. Fodd bynnag, roedd ei ymarfer wedi'i gyfyngu i drin ceffylau. Plediodd Mr A yn euog ar ddau gyhuddiad ar 30 Mai 2008 a chafodd ddirwy. Ni wnaeth unrhyw ymdrech i amddiffyn ei hun ar y sail bod ei ymarfer wedi'i gyfyngu i anifeiliaid. Cyhuddwyd Mr A o dorri amodau Adran 32 ar ddau achlysur, ac roedd y naill a'r llall yn gysylltiedig â gwefannau o dan ei reolaeth. Cyflwynodd y Cyngor dystiolaeth gerbron y Llys ei fod wedi rhybuddio Mr A am dorri amodau Adran 32 sawl gwaith rhwng 2003 a 2005. Dywedodd Mr A nad oedd wedi bwriadu camarwain y cyhoedd, a bod ei waith fel therapydd ceffylau yn rhoi'r hawl iddo gyfeirio at ei gymhwyster osteopathig. Fodd bynnag, dywedodd y Barnwr Rhanbarth yn gwbl glir wrth Mr A bod tuedd i'w weithgarwch gamarwain y cyhoedd, ac y byddai'n cael ei ddedfrydu ar sail hynny. Aeth y barnwr ymlaen i ymdrin â'r cyfeiriadau ar y gwefannau at gymwysterau proffesiynol Mr A, gan ddweud y bu Mr A yn 'gwbl anghywir yn cyfeirio at osteopathi' yn y cyd-destun hwn.

## Achos Dau

Nid oedd Mr B wedi'i gofrestru (ac nid yw wedi'i gofrestru erioed) fel osteopath gyda'r Cyngor. Roedd y drosedd yn ymwneud â gwybodaeth y parhaodd Mr B i'w darparu ar ei wefannau, a oedd yn awgrymu ei fod yn osteopath. Rhoddwyd rhybuddion i Mr B gan y Cyngor y gallai fod yn cyflawni trosedd drwy barhau i ddefnyddio'r teitl osteopath ond, er hynny, methodd â gwneud diwygiadau digonol i'w wefannau. Ni fynychodd Mr B yr achos llys, ac ni chafodd ei gynrychioli. Penderfynodd yr ynadon barhau yn ei absenoldeb a chawsant ef yn euog o dorri amodau Adran 32. Rhoddwyd dirwy o £1,000 iddo ac fe'i gorchmynnwyd i dalu costau o £960 i'r Cyngor. Gorchmynnwyd Mr B i dalu Gordal Dioddefwr o £100 hefyd.

## Achos Tri

Yn dilyn ymchwiliad i'w addasrwydd i ymarfer fel osteopath, cafwyd Mr C yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol mewn gwrandawiad gerbron Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ac fe'i tynnwyd oddi ar Gofrestr y Cyngor o osteopathiaid. Ni chaniatawyd i Mr C ddefnyddio'r teitl osteopath mwyach.

Fodd bynnag, parhaodd Mr C i ddarparu geirdaon a oedd yn awgrymu ei fod yn osteopath ar wefan ei glinig. Er gwaethaf sawl rhybudd gan y Cyngor yn hysbysu Mr C y gallai fod yn cyflawni trosedd drwy ddefnyddio'r teitl osteopath, methodd â gwneud newidiadau digonol i wefan ei glinig. Yn y Llys Ynadon, cafwyd Mr C yn euog o ddisgrifio ei hun yn anghyfreithlon fel osteopath ar ôl iddo gael ei dynnu oddi ar Gofrestr y Cyngor o Osteopathiaid yn flaenorol. Rhoddwyd dirwy o £1,000 i Mr C yn ogystal â gordal dioddefwr o £100 ac fe'i gorchmynnwyd i dalu costau o £657.70 i'r Cyngor.

## Hanes y fersiwn

| Dyddiad | Newidiadau a wnaed | Cymeradwyo |
|---|---|---|
| 2014 | Fersiwn wreiddiol | Cyngor |
| Mai 2022 | • cyfeiriad at ein hamcan statudol cyffredinol i ddiogelu’r cyhoedd<br>• ychwanegu atodiad yn cynnwys yr astudiaethau achos lle’r ydym wedi erlyn troseddwyr yn llwyddiannus yn y gorffennol. | Cyngor |